



Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) Tystiolaeth o Genedligrwydd a Manylion Preswyllo

Dylech anfon **llungopiau** o'ch tystiolaeth oni bai y nodir fel arall. Byddwn yn dychwelyd unrhyw ddogfennau gwreiddiol.



Dinasyddion o'r UE ac AEE

Mae'r rhestr ddiweddaraf o holl aelod-wladwriaethau'r UE ac AEE ar gael yn: www.homeoffice.gov.uk



Preswyllo fel arfer

Trwy ddweud 'preswyllo fel arfer', rydym yn golygu eich bod yn byw fel arfer ac yn gyfreithlon yn y DU, yr UE/AEE neu'r Swistir trwy ddewis. Os ydych chi wedi symud i'r DU at ddibenion addysg, mae'n rhaid i chi fod wedi bod yn preswyllo fel arfer yn yr UE/AEE neu'r Swistir cyn cychwyn preswyllo fel arfer yn y DU. Peidiwch â chynnwys unrhyw absenoldebau dros dro nad ydynt yn fwy na chwe mis yn ystod y tair blynedd cyn diwrnod cyntaf eich cwrs.

Yn ogystal, rhaid eich bod yn preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf eich cwrs er mwyn gallu cael y grant hwn.

If you need to send us your Biometric Residence Permit as evidence for any question in this section, be assured that we will only use it to validate your identity, no other data from it will be used or stored.

Eich statws presennol:



Dinesydd y DU

Os oes gennych basbort y Deyrnas Unedig diliys, rhowch y manylion hyn ar y ffurflen gais. Mae hyn yn golygu **nad oes rhaid i chi anfon eich pasbort atom.**

Os nad oes gennych basbort y Deyrnas Unedig diliys, bydd angen tystiolaeth amgen. Mae angen i chi anfon:

- eich tystysgrif geni **wreiddiol.**



Dinesydd yr UE

Bydd angen i chi anfon:

- eich pasbort dilys; **neu'ch**
- cerdyn Adnabod Cenedlaethol.

Rhaid i'r holl eitemau tystiolaeth a anfonwch fod yn ddogfennau **gwreiddiol**.

Mae angen i chi anfon tystiolaeth wreiddiol i ddangos eich bod wedi bod yn preswyllo yn y Deyrnas Unedig yn ystod y 3 blynedd diwethaf.

Gall tystiolaeth wedi ei lungopïo fod yn, ond nid yw'n gyfyngedig i:

- llythyr gan eich ysgol neu goleg ar bapur pennawd yn cadarnhau eich enw, cyfeiriad(au) a dyddiad cyhoeddi'r llythyr;
- biliau cyfleustodau (gellir argraffu'r rhain o'ch cyfrif ar-lein os nad ydych chi'n cael biliau papur);
- Llythyr credydau treth plant - os ydych chi wedi eich enwi arno;
- datganiadau banc (gellir argraffu'r rhain o'ch cyfrif ar-lein os nad ydych chi'n cael cyfriflenni papur);
- Biliau'r dreth gyngor;
- Llythyr gan eich cyngor lleol neu gymdeithas dai.



'Statws preswlydd sefydlog' yn y DU

Dyma ystyr 'statws preswlydd sefydlog':

- mae gennych chi hawl i 'breswyllo'n barhaol' yn y DU; **neu**
- rydych wedi cael 'caniatâd amhenodol i aros' yn y DU'; **neu**
- mae gennych hawl preswyllo yn y DU.

Dylech anfon y canlynol atom:

- eich Trwydded Breswyllo Fiometrig; **neu**
- eich llythyr o'r Swyddfa Gartref **a'ch** dogfen statws mewnfudo.

Rhaid i'r holl eitemau tystiolaeth a anfonwch fod yn ddogfennau **gwreiddiol**.



Caniatâd mynediad neu aros; caniatâd yn ôl disgresiwn; caniatâd i aros ar sail bywyd teuluol; caniatâd i aros ar sail bywyd preifat; caniatâd i aros tu allan i'r rheolau mewnfudo; neu ddiogelwch dyngarol

Os oes gennych chi ganiatâd i aros ar sail bywyd teuluol neu ar sail bywyd preifat, rhaid i hyn fod o ganlyniad i gais am loches sydd wedi methu.

Os oes gennych chi ganiatâd i aros tu allan i'r rheolau mewnfudo, rhaid i hyn fod o ganlyniad i gais sydd wedi methu am ganiatâd i aros, naill ai ar sail bywyd teuluol neu fywyd preifat.

Gallwch ymgeisio am gyllid cyn belled nad yw eich statws chi neu'r aelod o'ch teulu cymwys yn dod i ben cyn 1af Medi 2020.

Os yw'r statws yn dod i ben cyn i chi adael eich cwrs, byddwn yn gofyn am dystiolaeth o'r statws wedi ei ddiweddarau.

Os yw unrhyw un o'r statysau hyn yn berthnasol i chi neu'r aelod o'ch teulu, mae angen i chi anfon:

- yr Hawlen Breswyllo Fiometrig; **neu**
- llythyr y Swyddfa Gartref a dogfen statws mewnfudo y sawl sydd wedi cael y caniatâd i aros.

Os yw unrhyw un o'r statysau hyn yn berthnasol i'r aelod o'ch teulu, mae hefyd angen i chi anfon:

- prawf fod eich perthynas i'r aelod o'r teulu yn bodoli ar yr adeg y cyflwynodd ei gais/chais i'r Swyddfa Gartref.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lysblentyn person sydd wedi derbyn y statws hwn, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant neu lys-riant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn y statws hwn, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais.

Rhaid i'r holl eitemau dystiolaeth a anfonwch fod yn ddogfennau **gwreiddiol**.



'Statws ffoadur' yn y DU neu 'statws diogelwch dros dro'r UE' yn y DU

Gallwch ymgeisio am gyllid cyn belled nad yw eich statws chi neu'r aelod o'ch teulu cymwys yn dod i ben cyn 1af Medi 2020.

Os yw'r statws yn dod i ben cyn i chi adael eich cwrs, byddwn yn gofyn am dystiolaeth o'r statws wedi ei ddiweddarau.

Os yw'r statws hwn yn berthnasol i chi neu'r aelod o'ch teulu, mae angen i chi anfon:

- yr Hawlen Breswyllo Fiometrig; **neu**
- llythyr y Swyddfa Gartref a dogfen statws mewnfudo y sawl sydd wedi derbyn y statws hwn.

Os yw'r statws hwn yn berthnasol i'ch aelod o'ch teulu, mae angen i chi hefyd anfon:

- prawf fod eich perthynas i'r aelod o'r teulu yn bodoli ar yr adeg y cyflwynodd ei gais/chais i'r Swyddfa Gartref.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lysblentyn person sydd wedi derbyn y statws hwn, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant neu lys-riant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn y statws hwn, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais.

Rhaid i'r holl eitemau dystiolaeth a anfonwch fod yn ddogfennau **gwreiddiol**.



'Hawl i aros' fel person heb ddinasyddiaeth

Gallwch ymgeisio am gyllid cyn belled nad yw eich statws chi neu'r aelod o'ch teulu cymwys yn dod i ben cyn 1af Medi 2020.

Os yw'r statws yn dod i ben cyn i chi adael eich cwrs, byddwn yn gofyn am dystiolaeth o'r statws wedi ei ddiweddarau.

Os yw'r statws hwn yn berthnasol i chi, bydd angen i chi anfon:

- llythyr y Swyddfa Gartref a Thrwydded Preswyllo Biometrig y sawl sydd wedi derbyn statws person heb ddinasyddiaeth.

Os yw'r statws hwn yn berthnasol i'ch aelod o'ch teulu, mae angen i chi hefyd anfon:

- prawf fod eich perthynas i'r aelod o'r teulu yn bodoli ar yr adeg y cyflwynodd ei gais/chais i'r Swyddfa Gartref.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn person sydd wedi derbyn statws person heb ddinasyddiaeth, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant neu eich llys riant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn statws person heb ddinasyddiaeth, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais.

Rhaid i'r holl eitemau dystiolaeth a anfonwch fod yn ddogfennau **gwreiddiol**.



'Caniatâd i aros' dan adran 67 Deddf Mewnfudo 2016

Gallwch ymgeisio am gyllid cyn belled nad yw eich statws chi neu'r aelod o'ch teulu cymwys yn dod i ben cyn 1af Medi 2020.

Os yw'ch statws yn dod i ben cyn i chi adael eich cwrs, byddwn yn gofyn am dystiolaeth o'ch statws wedi ei ddiweddarau.

Os yw'r statws hwn yn berthnasol i chi neu'r aelod o'ch teulu, mae angen i chi anfon:

- yr Hawlen Breswyllo Fiometrig; **neu**
- llythyr y Swyddfa Gartref a dogfen statws mewnfudo y sawl sydd wedi cael y caniatâd i aros.

Os yw'r statws hwn yn berthnasol i'ch aelod o'ch teulu, mae angen i chi hefyd anfon:

- prawf fod eich perthynas i'r aelod o'r teulu yn bodoli ar yr adeg y cyflwynodd ei gais/chais i'r Swyddfa Gartref.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lysblentyn person sydd wedi derbyn y statws hwn, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant neu lys-riant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Rhaid i'r holl eitemau dystiolaeth a anfonwch fod yn ddogfennau **gwreiddiol**.



Plentyn ddinesydd o Dwrci sy'n gweithio neu sydd wedi gweithio yn y DU

Dylech anfon un o'r rhain atom:

- eich pasbort dilys; **neu**
- eich Cerdyn Adnabod Cenedlaethol

Bydd angen i ni gael prawf fod eich rhiant/llys riant yn ddinesydd o Dwrci. Dylech anfon un o'r rhain atom:

- pasbort dilys eich rhiant; **neu**
- ei Gerdyn Adnabod Cenedlaethol a phrawf o'ch perthynas.

Rhaid i'r holl eitemau tystiolaeth uchod a anfonwch fod yn ddogfennau **gwreiddiol**.

Rydym hefyd angen prawf wedi ei lungopïo ei fod/bod yn gweithio/wedi gweithio yn y Deyrnas Unedig, dylid anfon:

- ei P60 diweddaraf; **neu**
- ei P45 diweddaraf; **neu**
- lythyr gan ei gyflogwr presennol ar bapur pennawd; **neu**
- ei gyfrifon archwiliedig diweddaraf; **neu**
- ei ffurflen dreth ddiweddaraf; **neu**
- fanylion diweddaraf ei incwm.



Plentyn ddinesydd o'r Swistir

Dylech anfon un o'r rhain atom:

- eich pasbort dilys; **neu**
- eich Cerdyn Adnabod Cenedlaethol.

a phrawf fod eich rhiant yn ddinesydd o'r Swistir. Anfonwch un o'r rhain atom:

- pasbort dilys eich rhiant sy'n ddinesydd o'r Swistir; **neu**
- ei Gerdyn Adnabod Cenedlaethol a phrawf o'ch perthynas.

Rhaid i'r holl eitemau tystiolaeth uchod a anfonwch fod yn ddogfennau **gwreiddiol**.

Rydym hefyd angen tystiolaeth wedi llungopïo o'i breswyliaid yn y Deyrnas Unedig, anfonwch:

- llythyr wedi'i lofnodi i gadarnhau fod eich rhiant sy'n ddinesydd o'r Swistir yn byw/wedi byw yn y DU ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd **ac un o'r canlynol:**
 - datganiad banc diweddaraf; **neu**
 - slip cyflog diweddaraf (sy'n dangos cyfeiriad y cartref); **neu**
 - cytundeb tenantiaeth/datganiad morgais; **neu**
 - bil cyfleustodau (dyddiedig yn ystod y 3 mis diwethaf); **neu**
 - gohebiaeth gan Awdurdod Lleol (ar bapur pennawd); **neu**
 - gohebiaeth gan un o Adrannau'r Llywodraeth.



Dinesydd o'r AEE neu'r Swistir sy'n gweithio/sydd wedi gweithio neu sy'n chwilio am waith yn y DU

Os byddwch chi/bydd yr aelod o'ch teulu yn stopio chwilio am waith neu os byddwch chi neu os bydd ef/hi yn stopio gweithio ac os na fyddwch chi/na fydd ef/hi yn chwilio am waith yn y DU mwyach, bydd angen i chi roi gwybod i ni trwy ffonio **0300 200 4050**.



Anghymwys ar sail eich cenedligrwydd a'ch sefyllfa breswyllo

Os yw'r statws hwn yn berthnasol i chi, dylech anfon un o'r canlynol atom:

- eich pasbort dilys; **neu**
- eich Cerdyn Adnabod Cenedlaethol; **neu**
- eich Cerdyn Preswyllo Parhaol (AEE yn unig).

Rhaid i unrhyw un o'r eitemau tystiolaeth uchod a anfonwch fod yn ddogfennau **gwreiddiol**.

Rydym hefyd angen prawf wedi llungopïo eich bod yn gweithio/chwilio am waith, dylid anfon:

- eich P60 diweddaraf; **neu**
- eich P45 diweddaraf; **neu**
- llythyr gan eich cyflogwr presennol ar bapur pennawd; **neu**
- eich cyfrifon archwiliedig diweddaraf; **neu**
- eich ffurflen dreth ddiweddaraf; **neu**
- manylion eich incwm presennol; **neu**
- prawf diweddar eich bod wrthi'n chwilio am waith yn y DU.

Os yw'r statws hwn yn berthnasol i aelod o'ch teulu, dylech chi anfon un o'r rhain atom:

- ei basbort dilys; **neu**
- ei Gerdyn Adnabod Cenedlaethol a phrawf o'ch perthynas.

Rhaid i unrhyw un o'r eitemau tystiolaeth uchod a anfonwch fod yn ddogfennau **gwreiddiol**.

Rydym hefyd angen prawf wedi ei lungopïo ei fod/ bod yn gweithio/chwilio am waith, dylid anfon:

- ei P60 diweddaraf; **neu**
- ei P45 diweddaraf; **neu**
- llythyr gan ei gyflogwr presennol ar bapur pennawd; **neu**
- ei gyfrifon archwiliedig diweddaraf; **neu**
- ei ffurflen dreth ddiweddaraf; **neu**
- fanylion ei incwm presennol; **neu**
- prawf diweddar ei fod wrthi'n chwilio am waith yn y DU.

Mae angen i chi allu cyflawni'r gofynion ynghylch cenedligrwydd a phreswyllo a amlinellir gan y Cynllun LCA i gael taliadau LCA.

Os ydych chi'n meddwl y gallech fod yn gymwys serch hynny, ac yr hoffech siarad â rhywun am eich sefyllfa benodol, ffoniwch **0300 200 4050**.